

Ceramic Series

ABERYSTWYTH ARTS CENTRE · No. 10


Terry Bell Hughes

Looking back I recollect that the first time I saw and handled a pot by Terry Bell Hughes was at Aberystwyth Arts Centre. A tall slender jug narrowing from a wide base to a slender neck and rim. Glazed in temnoku with bands of wavy combing from the rim to the shoulder. I was impressed; totally unpretentious, echoing the mediaeval yet with a presence enough to allow it to stand out and be noticed in a small room crammed with ceramic treasures. The style has changed a little since then but the pots we see here in his current exhibition still retain that quiet authority that never shouts but seldom goes unnoticed.

Terry was born in North Wales but by the early sixties found himself a civil servant in London. Teacher Training college came next and then a year teaching in a Secondary School. He had started wanting to be a painter, an 'artist' not remotely interested in pots. However, it was while at Training College that he was shown a Hans Coper pot and was moved by its modernistic sculptural qualities. He began making pots with Coper's work very much in mind. In recollection he knows the pots were poor but his increasing fascination with clay led to him joining the Harrow Studio Pottery Course in 1967. Victor Margrite and Michael Casson were in charge at the time. "A whole new field of vision opened, a struggle with simple domestic pottery, the difficult task of resolving forms and the technicalities of making domestic pots that were visually pleasing and functionally sound". After leaving Harrow he opened a workshop in Shepherds Bush with Trefor Owen (now in Maentwrog) where he made slipware, stoneware both oxidised and reduced, porcelain and hand built figures, he loved it all, clay day was marvellous and he was determined to experience its full range of possibilities. They sold pots on the street in the Bayswater Road for eighteen months until the workshop closed to allow the building to be demolished.

By this time he had met and married his wife, Beverley, also a working potter. She knew Rosemary Wren and they were offered a workshop at Oxshott in the grounds of the house belonging to Denise and Henry Wren. Terry has many fond memories of the lady regarded by many as as much an instigator and pioneer in pottery as Bernard Leach, she had opened her first workshop in Kingston on Thames in 1909 and brought a kiln from America as there was nothing available in Britain at that time. She went on to pioneer saltglaze and was eventually and somewhat belatedly made an honorary life member of the Craftsman Potters association in 1979. Three of her well known elephant forms have a place on a shelf in Terry's living room.

On their return to Wales they set up a workshop in Llandudno Junction in 1978. The house and workshop is tucked away behind other houses and difficult to find. Their living room has that pleasantly cluttered appearance that makes it a pleasure to visit. Many examples of Terry's pots line window sills and mantelpiece. Three large, round lidded jars sit on the dining table, having just returned from an exhibition in Denmark, the



colours are brown and greys with cobalt blue muted in tone, its edges softened by an ashglaze with a soft, satin touch. Pots from other people figure largely on the shelves around the room, a wide shallow bowl by Michael Cardew, others by Walter Keeler, Denise Wren and Michael Casson the only one of all where I can see obvious influences from a contemporary potter. (Terry worked for him at Prestwood while still at Harrow, they have great respect for each others work). A number of examples of slipwares from Buckley are there as if to remind him of his roots and position in life!

When asked about the development of his work over the last 10 or 12 years, Terry somewhat undersells himself. He sees little that's continuous, linking his different stages. He very much sees himself as a butterfly flitting from idea to idea settling only for a short time. He admires Bernard Leach's 'Professional Amateur' attitude in trying everything possible and cites the Leach retrospective at the Victoria and Albert the best exhibition of pottery he has ever seen. I

see a number of strong links in his work. The throwing has always been generous, often full and round carried out with a minimum of fuss. His earlier porcelain teapots almost spherical in shape with proportionally small lids were carved with a freedom, enveloping shapes reminiscent of the way his slips cover a pot now, like string around a parcel. A particular straight sided teapot with a clay strap handle over has lasted the course, the proportions have changed, the spout lower and thinner, lower placed. Decoratively slip has always figured strongly. Previously used to enhance the covering glaze or to be drawn through with landscapes and animals, now it stands as the decoration alone covered with glaze only to soften and unify and to develop their full colour potential. The stronger oriental influence of earlier work has diminished, although not disappeared, whilst a feeling of the warmth and homely domesticity of British slipware has for the present emerged the stronger influence.

Terry dislikes turning, "turning changes the nature of the pot but if done with the same

spirit as the throwing has a significance of its own". However, sometimes turning is unavoidable, he turns his dishes and bowls and throws footrings from added coils of clay.

The decoration or patterns in the slip are as much derived from their method of application as any outside inspiration, the unique flowing lines from the slip trailer or the broader expanses of body colour left after wiping away with a sponge. Lines of a different quality are created by drawing through the wet slip with a point. The base colour slip is usually applied one day with the broad sponge sweeps, the finer lines and brush work the following day depending on the weather. Don't let the casual nature of the decoration fool you, each requires intense concentration from the aesthetic and the purely practical standpoint. The results are abstract patterns, vaguely tree like, in total harmony with the shape they surround.



Terry has two gas kilns, one a very small updraught that has served for most of this production in the past often firing everyday for a week or more to meet large orders. The other is larger, 45 cu. ft., only recently completed and to date has only been fired once but will now serve for the main production. Both are fired to 1280-1300°C a shimmering white heat that unites glaze and slip as one. "I like high firing because the fusion of all the processes is more complete and as one". The smaller kiln sits in his workshop which is really quite primitive and very compact and horribly cold in winter. The racks at the far end hold pots that have been decorated but not fired, their clean edges and distinct colouring in sharp contrast to the working jumble around them.

Terry has firm beliefs about his own and other potters' role in society. He admires greatly the anonymous craftsmen from all over the world who in times past made items with great skill and sensitivity but with little regard for the ego. "To make something by hand that requires a lifetime of hard-won knowledge and experience is to make the man and his product significant and imparts dignity and respect". For him pottery is about pots that have a domestic function because only in use can a true relationship develop between pot and user. If you buy one be sure to use it, you will enjoy the experience.

Terry's work is currently available, amongst others, at Spectrum in Machynlleth, Collection in Lledbury and Talking Point in Fishguard, also at the Craftsman Potter's shop in London.

Phillip Rogers



Y Gyfres Cerameg

CANOLFAN Y CELFYDDYDAU ABERYSTWYTH

Rhif 10

Terry Bell Hughes

Oedrych yn ôl rwy'n cofio mai'r tro cyntaf i mi weld a chydio mewn enghraifft o waith Terry Bell Hughes oedd yng Nghanolfan Y Celfyddydau Aberystwyth. Jwg main tal yn culhau o'i waelod llydan i'w wddf a'i ymyl main. Gwydredd 'temmoku' oedd arno gyda rhesi llydan wedi eu crafallu o'r ymyl i waelod y gwddf. Gwnaeth argraff arnaf, yn gwbl ddiymhongar, yn adleisio'r canoloesol ond eto gyda digon o naws yn perthyn iddo nes gwneud iddo sefyll allan a hawlio sylw mewn ystafell fechan orlawn o drysorau ceramig. Mae'r arddull wedi newid ychydig ers hynny, ond mae'r potiau sydd yma yn yr arddangosfa bresennol yn dal i feddu'r awdurdod tawel nad yw byth yn ymwithgar ond na chaiff ei anwybyddu'n aml.

Ganed Terry yng Nghogledd Cymru ond erbyn y chwedegau cynnar roedd yn was sifil yn Llundain. Yna aeth i Goleg Hyffordd Athrawon a bu'n dysgu am flwyddyn mewn ysgol uwchradd. Ar y cychwyn ei ddymuniaid oedd bod yn arlunydd, 'artist' heb unrhyw ddiddordeb mewn crochenwaith. Fodd bynnag, tra oedd yn y Coleg Hyfforddi dangoswyd enghraifft o waith Hans Coper iddo ac fe'i hysgogwyd gan ei nodweddion cerfluniol modernaidd. Dechreuodd gynhyrchu crochenwaith gyda'i feddwl wedi ei hoelio ar waith Hans Coper. O edrych yn ôl gwyr mai potiau gwael oeddynt, ond fe'i harweiniwyd gan ei ddiddordeb cynyddol i ymaelodi ar Gwrs Crochenwaith Stiwdio Harrow ym 1967. Victor Margrite a Michael Casson oedd yng ngofal y cwrs ar y pryd. "Agorwyd maes cwbl newydd, ymdrechu gyda llestri domestig syml, y dasg anodd o ddatrys problemau ffurfiau a manylion technegol sydd ynglŷn â llunio llestri domestig sy'n bleser i edrych arnynt ac yn ymarferol i'w defnyddio." Ar ôl gadael Harrow agorodd weithdy yn Shepherds Bush gyda Trefor Owen (sydd ar hyn o bryd ym Maentwrog) lle roedd yn cynhyrchu crochenwaith slip, a chrochenwaith caled, rhai wedi eu hocsieiddio a rhai heb eu hocsieiddio, porslen a rhai ffurfiau gwaith llaw. Roedd wrth ei fodd gyda'r gwaith a phob diwrnod yn dwyn boddhad, ac roedd yn benderfynol o brofi pob peth oedd yn bosibl. Buont yn gwerthu eu cynnyrch ar y stryd yn Bayswater Road am ddeunaw mis nes y bu'n rhaid cau'r gweithdy am fod yr adeilad i gael ei ddymchwil.

Erbyn hyn roedd wedi cyfarfod ac wedi priodi ei wraig, Beverly, a oedd hefyd yn grochenydd. Roedd hi'n adnabod Rosemary Wren a chawsant gynnig gweithdy yn Oxshott ar dir tŷ o eiddo Denise a Henry Wren. Mae gan Terry lawer o atgofion melyn nes y wraig o gyfrifiad gan lawer yn gymaint o arloeswr ac o ysbrydolwr ym myd crochenwaith â Bernard Leach. Roedd hi wedi agor ei gweithdy cyntaf yn Kingston on Thames ym 1909 ac wedi cael odyd o America gan nad oedd un ar gael ym Mhrydain ar y pryd. Aeth rhagddi i arloesi gyda gwydredd halen ac, o'r diwedd, ym 1979, ac nid cyn pryd, cafodd ei gwneud yn aelod anrhydeddus am oes o gymdeithas y Crefftwyr Grochenwyr. Mae tri o'i ffurfiau elfiant adnabyddus yn cael lle ar silff yn ystafell fyw Terry.



Pan ddaethant yn ôl i Gymru ym 1978 sefydlwyd gweithdy yng Nghyffordd Llandudno. Mae'r tŷ a'r gweithdy o'r golwg y tu ôl i dai eraill ac nid gwaith hawdd yw dod o hyd iddynt. Mae eu hystafell fyw, sy'n hyfryd o annibin, yn bleser i ymweld â hi ac mae llawer o enghreifftiau o waith Terry yn sefyll ar silffoedd y ffenestri ac ar y silff ben tŷ. Ar y bwrdd mae tair o jariau mawr crynion gyda chaeadau sydd newydd ddychwelyd o arddangosfa yn Nenmark, rhai brown a llwyd gyda glas cobalt a'i liw wedi ei wanhau a'i ymylon wedi eu tyneru gyda gwydredd lludw sy'n llyfn fel satin. Enghreifftiau o waith pobl eraill yw'r rhan fwyaf o'r potiau sydd ar y silffoedd o amgylch yr ystafell, powlen lydan fas o waith Michael Cardew, rhai eraill o waith Walter Keeler, Denise Wren a Michael Casson, yr unig un o'r cwbl lle gallaf ganfod dylanwadau amlwg crochenydd cyfoes. (Bu Terry'n gweithio iddo yn Prestwood pan oedd yn dal yn Harrow) ac mae gan y naill barch mawr i waith y llall. Ceir amryw o enghreifftiau o grochenwaith slip o Fwcle yma hefyd, fel pe i'w atgoffa o'i wreiddiau a'i safle mewn bywyd!

Pan holwyd ef am ddatblygiad ei waith yn ystod y deng neu ddeuddeng mlynedd ddiwethaf, roedd Terry'n dueddol i'w ddibrisio ei hun. Ychydig o ddim parhaol sy'n cysylltu ei wahanol gyfnodau, y mae'n ei ganfod. Mae'n ei ystyried ei hun fel glöyn byw yn gwibio o un syniad i'r llall heb oedi'n hir gyda'r un. Mae'n edmygu agwedd Bernard Leach at yr 'Amatur Proffesiynol' sy'n rhoi cynnig ar bopeth o fewn cyrraedd, ac mae'n enwi arddangosfa adolygol Leach yn

Amgueddfa Fictoria ac Albert fel yr arddangosfa crochenwaith orau a welodd erioed. Rydw i'n canfod amryw o linellau cyswllt cryf yn ei waith. Mae'r 'taflu' wedi bod yn hael bob amser, ffurfiau llawnion, crynion, yn aml a'r gwaith yn cael ei wneud yn gwbl ddi-ffwdan. Roedd ei debotiau porslen cynharaf, rhai ar ffurf sfferaidd bron a chyd chaeadau bychain ar yr un raddfa, wedi eu cerffio gyda rhyddid ac yn amgau ffurfiau sy'n ein hatgoffa o'r ffordd y mae ei slipiau yn gorchuddio ei botiau ar hyn o bryd, fel llinyn o amgylch parcel. Mae un tebot arbennig gydag ochrau syth a dolen strap o glai drosto wedi dal ei dir, ond mae'r cymesuredd wedi newid; mae'r pig yn is ac yn feinach ac wedi ei osod yn is. Mae slip ar gyfer addurn wedi cael lle amlwg bob amser. Gynt fe'i defnyddid i harddu'r gwydredd neu i dynnu lluniau tirluniau ac anifeiliaid arno, nawr caiff ei ddefnyddio fel addurn yn unig wedi ei orchuddio a dim ond gwydredd er mwyn ei dyneru a'i unoli ac i ddatblygu potensial y lliwiau i'r eithaf. Mae dylanwad dwyreiniol cryf y gwaith cynharaf wedi cilio, er nad yw wedi llwyr ddiflannu, tra mae naws gartrefol gynnes crochenwaith slip Prydeinig wedi dod i'r brig fel y dylanwad cryfaf ar hyn o bryd.


Nid da gan Terry y broses o gwblhau llestr ar y droell, "mae 'troelli' yn newid natur y llestr, ond os gwneir y gwaith yn yr un ysbryd â'r 'taflu' mae iddo'i arwyddocâd ei hun." Fodd bynnag, ni ellir osgoi'r gwaith bob amser, ac mae'n 'troelli' ei ddysglau a'i bowliau ac yn 'taflu' cylchau traed o dorchau ychwanegol o glai.



Mae'r addurn neu'n patrymau yn y slip yn deillio'n gymaint o'r dull a ddefnyddir i'w llunio ag y maent o unrhyw ysbrydoliaeth allanol, y llinellau rhwydd unigryw o'r taenwr slip neu'r tameidiau lletach o liw didraidd a adewir ar y clai ar ôl ei sychu â sbwng. Caiff llinellau o ansawdd wahanol eu creu drwy eu tynnu yn y slip gwlyb gyda nodwydd. Mae'r slip lliw gwaelodol fel rheol yn cael ei roi ar y clai gyda sbwng un diwrnod, a'r diwrnod canlynol, os yw'r tywydd yn ffafriol, y gwneir y llinellau ceinach a'r gwaith brws. Ond peidiwch â chymryd eich twyllo gan natur hamddenol yr addurn, mae pob un yn golygu canolbwyntio'n ddwys o safbwynt esthetig yn ogystal â'r safbwynt gwbl ymarferol. Patrymau haniaethol yw'r canlyniad, rhywbeth yn debyg i goed, a'r rheini mewn cytgorod llwyr â'r ffurf y maent yn ei amgylchu.

Mae dwy ody'n gan Terry, un eithaf bychan gyda'r drafft ar i fyny sydd wedi cael ei defnyddio ar gyfer y rhan fwyaf o'i gynnyrch yn y gorffennol, ac yn aml yn cael ei thanio bob dydd am wythnos pan mae archebion mawr ar y gweill. Mae'r llall yn fwy, 45 troedfedd giwbic, ac newydd gael ei chwblhau. Hyd yn hyn dim ond unwaith y cafodd ei thanio, ond o hyn allan hon fydd yn gyfrifol am y prif gynnyrch. Mae'r naill a'r llall yn cyrraedd 1280-1300°C, gwres gwynias sy'n cyfuno gwydredd a slip fel un. "Rwy'n hoffi defnyddio gwres uchel gan fod ymasiad y gwahanol brosesau yn fwy cyflawn." Yn ei weithdy y gosodwyd yr ody'n leiaf, gweithdy digon cyntefig, hynod o gyfyng a dychrynllwyd o oer yn y gaeaf. Yn y pen pellaf mae rheseli a'r potiau sydd wedi eu haddurno ond heb eu thanio yn cael eu arnynt, a'u lliwiau amlwg a'u hymylon eidd yn cyferbynnu'n drawiadol â'r gymysgedd o'r ddefnyddiau gwaith sydd o'u cwmpas.

Mae gan Terry syniadau pendant ynglŷn â'i swyddogaeth ei hun a chrochenwyr eraill mewn cymdeithas. Edmyga'n fawr y crefftwyr dienw o bob rhan o'r byd sydd yn y gorffennol wedi cynhyrchu gwaith gyda medr a sensitifrwydd mawr ond heb dalu nemor sylw i'r ego. "Mae gwneud rhywbeth â llaw sy'n gofyn am oes o brofiad a gwybodaeth a enillwyd drwy lafur caled, yn gwneud y gwneuthurwr a'i gynnyrch yn arwyddocaol ac



yn rhoi iddynt barch ac urddas." Iddo ef, rhywbeth sy'n ymwneud â llestri ag iddynt swyddogaeth ddomestig yw crochenwaith gan mai dim ond wrth ei ddefnyddio y datblygir perthynas rhwng y llestr a'r sawl sy'n gwneud defnydd ohono. Os byddwch yn prynu un gofawch eich bod yn ei ddefnyddio, fe gewch fwyndad o'r profiad.

Mae gwaith Terry ar gael ar hyn o bryd yn 'Spectrum' ym Machynlleth, 'Collection' yn Ledbury a 'Talking Point' yn Abergwaun ymhlith lleoedd eraill, ac hefyd yn siop 'Craftsman Potter' yn Liundain.